

Castell Caerdydd Meithrin Tîm

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn yr Is-grofft ganoloesol ac ar Diroedd y Castell (bydd angen dillad priodol).

Disgrifiad

Cyfres o weithgareddau adeiladu tîm gyda thema ganoloesol, a gynlluniwyd i annog cyfathrebu, datrys problemau a gwaith tîm. Detholiad o weithgareddau; yn amrywio o gemau tîm sy'n cynnwys cyfathrebu ac ymddiriedaeth, tasgau gan ddefnyddio cwmpawd i ddarganfod yr ateb i gyfres o gwestiynau yn ymwneud â hanes y Castell, a'r posibilrwydd i grwpiau gystadlu yn erbyn ei gilydd i adeiladu model o fagnel ac arbrofi gyda phwysau i weld magnel pwy gaiff ei thanio bellaf.

Mae gweithgareddau ychwanegol dewisol (cost ychwanegol) yn cynnwys rhoi cynnig ar saethyddiaeth, "Ymarfer Gwaywfwyeill" canoloesol, a dysgu sgiliau cleddyf sylfaenol.

Cynhelir eich gweithdy gan o leiaf un hwylusydd proffesiynol mewn gwisg o'r oes (hwylusydd/wyr ychwanegol ar gyfer gweithgareddau ychwanegol)

Taith Dywys o'r Castell

Nid yw taith dywys o'r Castell wedi cael ei gynnwys ym mhreis y gweithdy hwn, ond gellir ei ychwanegu taith am dâl gostyngol ychwanegol.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd y daith dywys yn para tua 50 munud. Neilltuir amser ar gyfer cinio ac i fanteisio ar yr agweddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr ymweliad (gweler isod)

Canlyniadau Dysgu Allweddol Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Cymryd rhan mewn cyfres o weithgareddau i ddatblygu'r syniad o weithio fel tîm
- ◆ Ymarfer sgiliau meddwl, datrys problemau a chyfathrebu
- ◆ Datblygu ymddiriedaeth ac ystyriaeth o aelodau eu tîm
- ◆ Dadansoddi effeithlonrwydd eu dewisiadau a'u perfformiad
- ◆ Dysgu gwybodaeth ychwanegol am y cyfnod canoloesol a hanes Castell Caerdydd

D.S. Bydd canlyniadau dysgu ychwanegol yn dibynnu ar y gweithgareddau a ddewiswyd

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 – Addysg Gorfforol (Cymru)**
 - **Gweithgareddau Antur** - Goresgyn heriau o natur ffisegol a datrys problemau gyda phartner, neu mewn grŵp bach. Ennill y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithgareddau a wneir, e.e. darllen cwmpawd, map neu gyfarwyddiadau. Nodi pam y dylai rhywun fod yn ymwybodol o ddiogelwch ei hun a diogelwch pobl eraill a sut i barchu'r amgylchedd
 - **Gweithgareddau Cystadleuol** – Cynllunio sut i wella perfformiad. Gwerthuso perfformiad ei hun a pherfformiad pobl eraill a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwella a gwneud cynnydd. Cydweithio ag eraill ac arsylwi ar gonfensiynau chwarae teg, cydraddoldeb ac ymddygiad priodol mewn gweithgareddau tîm
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 Addysg Gorfforol (Lloegr)**
 - Cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a heriau anturus, yn unigol ac fel tîm
 - Datblygu ystwythder, cryfder, techneg, rheolaeth a chydbwysedd
- ◆ **Cyfnod Allweddol 3 – Addysg Gorfforol (Cymru)**

- **Gweithgareddau Antur** – Datblygu ystod o sgiliau mewn datrys problemau neu heriau menter. Gwranddo'n ofalus ar gyfraniad pobl eraill, gwneud penderfyniadau unigol a grŵp i adnabod problemau ac awgrymu dulliau amgen. Cynllunio, cynnal a gwerthuso gweithgareddau a defnyddio'r hyn a ganfyddir er mwyn gwella'r ymgais nesaf. Cymryd cyfrifoldeb drosoch eich hun, pobl eraill a'r amgylchedd dysgu
- **Gweithgareddau Cystadleuol** – Mireinio, addasu a defnyddio sgiliau gyda rheolaeth gyson a chywirdeb dan amodau cystadleuol. Dadansoddi a gwerthuso effeithiolrwydd y strategaethau a thactegau sy'n fwyfwy cymhleth yn erbyn cefndir o sefyllfaoedd sy'n newid. Defnyddio'r wybodaeth i addasu, datblygu a rhoi cynnig ar gynlluniau a nodi strategaethau a thactegau eraill a allai fod wedi bod yn effeithiol. Mabwysiadu rolau amgen yn y gweithgaredd a ddewisir, tra'n gweithio gydag eraill i ddefnyddio rheolau'r gweithgaredd a sicrhau confensiynau chwarae teg, cystadlu'n onest, ymddygiad da chwarae a bod yn wylwyr gwybodus.

◆ **Cyfnod Allweddol 3 Addysg Gorfforol (Lloegr)**

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus sy'n cyflwyno heriau deallusol a chorfforol
- Gweithio mewn tîm, gan adeiladu ar ymddiriedaeth a datblygu sgiliau i ddatrys problemau, naill ai'n unigol neu fel grŵp

◆ **Cyfnod Allweddol 4 Addysg Gorfforol (Cymru)**

- **Gweithgareddau Antur** – Dadansoddi'r gwahanol opsiynau sydd ar gael yn y gweithgaredd. Dadansoddi'r strategaethau a ddefnyddir a'r strategaethau eraill a allai fod ar gael. Adolygu'r cynllun yn effeithiol pan fo angen. Mabwysiadu gwahanol rolau yn y gweithgaredd a ddewisir
- **Gweithgareddau Cystadleuol** – Gweithio ar y cyd i fireinio ac addasu technegau, sgiliau, strategaethau a thactegau a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd newydd. Esbonio pam y dewiswyd y sgiliau, strategaethau a thactegau dewisol a nodi problemau posibl. Pennu ystod o feini prawf llwyddiant ar gyfer y sgiliau, strategaethau a thactegau. Defnyddio rheolau cystadleuaeth, e.e. yn ymwneud â strwythur, cydraddoldeb, amddiffyniad ac ymddygiad. Mabwysiadu gwahanol rolau yn y gweithgaredd a ddewisir

◆ **Cyfnod Allweddol 4 Addysg Gorfforol (Lloegr)**

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus pellach mewn amrywiaeth o amgylcheddau sy'n cyflwyno heriau deallusol a chorfforol ac sy'n annog gweithio fel tîm
- Adeiladu ar ymddiriedaeth a datblygu sgiliau i ddatrys problemau, naill ai'n unigol neu fel grŵp

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol
Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.